# HEDDWCH

Rhifyn 87 > Awst 2024 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear



**Y llynedd gwariodd y DU £6.37 biliwn (£12,000 y funud) ar adnewyddu a chynnal arfau niwclear. Gwastraffodd y naw gwlad niwclear $91.4 biliwn i gyd ($2,898 yr eiliad). Os mai'r nod yw atal rhyfel, nid yw'n gweithio. Ar hyn o bryd mae 112 o ryfeloedd, hil-laddiadau a gwrthdrawiadau arfog yn serio ein byd. Pwy sy'n elwa? Torrwch yr arian, torrwch yr arfau, i atal y rhyfeloedd ac achub bywydau.**

ATAL DARC

ATAL LAKENHEATH

ATAL CAD-DROSEDDAU

BYW MEWN GOBAITH

*A OES HEDDWCH?*



# Tu hwnt i'r blwch pleidleisio

Mae'n dymor etholiadau ledled Ewrop a gogledd America. Mae twf etholiadol pleidiau asgell-dde eithafol yn Ewrop yn awgrymu haint ryngwladol ehangach. Yn UDA, llithrodd gwleidyddiaeth Weriniaethol a Democrataidd i mewn i wactod moesol, lle mae safonau dwbl ac, yn anffodus, henaint a chelwyddau Trumpaidd yn lleihau hygrededd. Gallwn wneud yn well na hyn, ac mae arnom ni hynny i genedlaethau'r gorffennol a'r dyfodol.



*Gwersyll Gaza myfyrwyr Bangor, Mai 2024*

Roedd llawer o'r ddadl cyn Etholiad Cyffredinol San Steffan wedi'i fframio o fewn terfynau cul, blin, a orfodwyd arnom yn rhannol gan y cyfryngau prif-ffrwd ac yn rhannol gan y prif bleidiau a oedd ag ofn mentro. Cafodd problemau sy'n wynebu Cymru eu gwthio i'r cyrion yn aml a chafodd y problemau byd-eang mwyaf enbyd eu cau allan o'r drafodaeth i raddau helaeth. Cyflwynai'r cyfryngau'r rhyfel ar Gaza ddim ond yn nhermau 'problem' gyda'r bleidlais mewn etholaethau â mwyafrif Mwslimaidd. Mewn gwirionedd mae'r argyfwng dyngarol ers mis Hydref 2023 wedi ysgwyd cymunedau ledled Cymru i'r byw, yn cynnwys pobl o bob cred neu ddim. Trafodwyd rhyfel Wcráin nid o ran ceisio atebion diplomyddol ond â galw am ddwysáu'r ymladd a gwneud NATO'n fwy ymosodol. Yn rhy aml o lawer camliwiwyd problemau a wynebir gan geiswyr lloches a ffoaduriaid, a'u troi'n rhethreg ymosodiadol a sibrydion gwenwynig i greu rhaniadau.

Bydd llawer o'n haelodau wedi canfod darnau o bolisi y gallant eu cefnogi ym maniffestos y pleidiau mwy blaengar, bydd llawer wedi dewis opsiynau tactegol. Mae angen agenda a gweledigaeth ar gyfer newid mwy radical, i atal crebachiad llwyr y corff gwleidyddol. Rhaid clywed amrywiaeth barn o fewn pleidiau gwleidyddol, ar draws rhaniadau gwleidyddol ac mewn trafodaethau cyhoeddus ehangach. Dyna lle gall CND Cymru gyfrannu. Ei nod yw bod yn fforwm bywiog ar gyfer trafodaeth flaengar rhwng amrywiaeth eang o unigolion, pleidiau gwleidyddol, undebau llafur a sefydliadau eraill. Mae mwy o angen y math yma o ryngweithio egnïol nag erioed.

## Yn y rhifyn hwn

Yn y newyddion : Philip Steele
**Etholiad 2024** 3

Bygythiad rhyfel niwclear: Linda Pentz Gunter
**Y perygl niwclear a hil-laddiadau** 4

Protestiadau Gaza: Dylan Lewis-Rowlands
**Myfyrwyr yn galw am ddadfuddsoddi** 6

Y rhyfel ar Gaza: Siân Arfon Miners
**Uffern ar y Ddaear** 7

Ein hôl troed milwrol: Sam Bannon
**Mapio militariaeth** 8

Ymgyrchoedd: Roy Jones, Ali Lochhead
**DARC a Lakenheath** 9

Newyddion Cymru
**O Fôn i Fynwy** 10-11

Mwnci Coch: Jon Plumpton, Jill Gough
**Geiriau a delweddau ergydiol** 12

**Adolygiad:** Sam Bannon 14

**Er cof**
Olwen Leavold gan Diana Bianchi 15

**Hysbysfwrdd** 15

**CND Cymru**
Cysylltiadau 16



*Llun: Médecins Sans Frontières*

*Anaml y mae gwleidyddion sy'n pardduo ffoaduriaid yn ystyried pam mae pobl yn ffoi o'u cartrefi. Ers blwyddyn bellach rhwygwyd Sudan gan ryfel cartref chwerw rhwng carfannau milwrol. Mae dros 15,500 o sifiliaid wedi'u lladd a thros 9.5 miliwn wedi'u gorfodi o'u cartrefi. Dim ond 11 mlynedd o heddwch a gafwyd yn Sudan ers 1956.*

# ETHOLIAD 2024




**5 Gorffennaf 2024**

Mae un lliw cynradd ar goll ar fap etholaeth newydd Cymru y bore yma: diflannodd y glas dros nos. Bydd hynny'n plesio llawer os nad pob un o'n haelodau. Llongyfarchiadau i Lafur lwyddiannus, Plaid Cymru ehangol a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Bydd canlyniadau eraill dros y ffin hefyd yn plesio llawer ohonom: llwyddiant tri ymgeisydd o blaid Palesteina, pedwar AS o'r Blaid Werdd, llwyddiant un o gefnogwyr CND Cymru, Jeremy Corbyn. Fodd bynnag, bydd llawer ohonom yn gweld eisiau'r pwyntiau croyw a pherthnasol a godwyd gan ASau'r SNP a fu'n brif Wrthblaid yn San Steffan.

Gair o rybudd. Mae'r Ceidwadwyr yn parhau yn y Senedd, ac mae twf cefnogaeth i boblyddiaeth asgell-dde eithafol Reform UK ar 4 Gorffennaf yn berygl uniongyrchol i bob plaid flaengar ledled Cymru a ledled Ewrop, ac yn wir i'r Toriaid eu hunain.

Mae Keir Starmer wrthi'n dadbacio'i fas Ming werthfawr a'i rhoi ar silff ben tân Rhif 10, felly gadawaf iddo ei hedmygu am eiliad, ac yna gofyn iddo oedi i feddwl. Aeth y bleidlais Lafur i lawr yng Nghymru mewn gwirionedd, felly mae angen sylfaen ehangach a chyfathrebu trawsbleidiol adeiladol. Gwrthwynebwch Reform UK nid trwy ddyhuddiad ond trwy bolisi cymdeithasol. Yn ail, byddwch yn dangnefeddwr go iawn yn y Dwyrain Canol: agorwch eich hen lyfrau ar y gyfraith ddyngarol ryngwladol a'u hastudio eto. Rhowch y gorau i arfogi hil-laddiad: mae angen gweithio ar fyrder ar strwythur cytundeb heddwch. Ac yn olaf, yr holl wariant 'amddiffyn' yna a'r Rhyfeloedd Oer newydd yna: beth am wrando arnon ni a llawer o'ch cefnogwyr? Ymunwch â Chytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW). Nid trwy faril gwn neu fotwm tanio bom y daw heddwch parhaol.

I gloi, diolch o galon i'r ASau hynny a fu'n gyfeillion da i'r mudiad heddwch yng Nghymru ond na fyddant yn eistedd yn San Steffan bellach. Clod arbennig i Beth Winter (Llafur, Cwm Cynon) a hefyd i Hywel Williams (Plaid Cymru, Arfon).

**PHILIP STEELE**

# PERYGLON NIWCLEAR A HIL-LADDIADAU



*Llun Gweinyddiaeth Amddiffyn Rwsia*

**Y cwestiwn iasoer sy'n dal i hofran uwchlaw o leiaf ddau wrthdaro mawr heddiw yw a ddefnyddir arfau niwclear ai peidio.**

## Kyiv a Mosgo

Ymosododd Rwsia, pŵer arfau niwclear byd-eang, ar Wcráin ar 24 Chwefror 2022. Mae aelodau blaenllaw o'r Duma wedi dadlau'n agored o blaid defnyddio arfau niwclear tactegol i ddod â'r rhyfel i ben. Mae arlywydd Rwsia, Vladimir Putin, hefyd wedi lled-fygwth hyn.

Mae'r posibilrwydd o drychineb yn unrhyw un neu fwy o 15 adweithydd niwclear sifil Wcráin, hefyd yn hongian dros y rhanbarth fel cleddyf Damocles atomig. Mae'r radioniwclidau hirhoedlog a ryddheir yn ystod damwain mewn gorsaf ynni niwclear yn treiddio i'r cyflenwad dŵr, y gadwyn fwyd a chyrff dynol ac yn para bron am byth. Mae cadoediad, am gynifer o resymau, yn hanfodol.

## Israel a Gaza

Mae Israel hithau yn bŵer arfau niwclear er nad yw wedi datgan hynny, sy'n sefyllfa hurt. Mae'n hysbys bod gan y wlad o leiaf 75 o arfau niwclear ac amheuir bod y nifer yn nes at 200. Fel yn achos Rwsia, mae'r cwestiwn a fyddai Israel yn defnyddio arfau niwclear yn hofran yn y cefndir wrth iddi barhau â'i hymosodiad creulon a hil-laddol ar Balestiniaid Gaza. Yma eto, mae cadoediad yn rheidrwydd hollbwysig.

Cododd bwgan rhyfel niwclear yn y Dwyrain Canol eto fis Tachwedd diwethaf pan fynnodd Gweinidog Treftadaeth Israel, Amichai Eliyahu, fod gollwng bom niwclear ar Gaza yn "un o'r posibiliadau." Cafodd ei atal o'r swydd am gyfnod amhenodol.

Ni chafodd ddau wleidydd blaenllaw o'r UD gosb o'r fath am awgrymu y gallai Israel drechu Gaza trwy ddilyn esiampl yr UD pan ollyngodd fomiau atomig ar Hiroshima a Nagasaki. Eu dadl (testun anghytundeb rhwng haneswyr) oedd i hynny ddod â'r Ail Ryfel Byd i ben ar fyrder.

## Iran a'r CAY (NPT)

Cynyddodd ofnau am wrthdaro niwclear ehangach yn y Dwyrain Canol ar ôl i Israel brocio Iran trwy lofruddio aelodau o is-genhadaeth Iran yn Syria. Taniodd Iran yn ôl, yna gwnaeth Israel eto. Yn y cyfamser, mae rhaglen gyfoethogi wraniwm Iran yn parhau ar garlam, heb ei llyffetheirio bellach gan archwiliadau a chyfyngiadau wedi i gyn-arlywydd yr UD, Donald Trump, dynnu'r UD allan o'r hyn a adwaenir fel 'Bargen Niwclear Iran'.

Cadwodd y cytundeb hwnnw weithgareddau cyfoethogi wraniwm Iran yn is na 4 y cant, ymhell o fewn y terfyn gradd fasnachol. Ond dywed Iran bellach ei bod wedi cyfoethogi wraniwm hyd at 65 y cant, ymhell uwchlaw'r radd fasnachol ond o dan y 90 y cant gofynnol ar gyfer gradd arfau.

Mae Iran yn ymgorffori pam nad yw'r Cytundeb Atal Ymlediad Niwclear (CAY) yn gweithio. Arwyddodd Iran y CAY, sy'n datgan bod datblygu ynni niwclear sifil yn "hawl ddiymwad" i'r partïon hynny i'r cytundeb sy'n ymwrthod â datblygu arfau niwclear. Mae arfer yr "hawl" hon i bob pwrpas yn cyflwyno'r allweddi i ddatblygu arfau niwclear. Mae Iran yn enghraifft o'r llinell aneglur hon gan na ŵyr neb a yw Iran yn datblygu arfau

niwclear mewn gwirionedd, neu ddim ond yn ymhonni y gallai wneud.

## Llwybr Israel tuag at bŵer niwclear

Llwyddodd Israel i gaffael rhaglen arfau niwclear ar hyd y llwybr anfilwrol hefyd, diolch i Ffrainc, a helpodd Israel i sefydlu adweithydd "ymchwil" yn Dimona ym 1958 a oedd erbyn 1966 yn cynhyrchu arfau niwclear yn gyfrinachol. Ond pan ataliodd Ffrainc y cyflenwad wraniwm ar ôl Rhyfel Arabaidd-Israeli 1967, bu'n rhaid i Israel geisio ffynhonnell arall. Daw hyn â ni at yr hil-laddiad arall hwnnw sy'n dal i ddatblygu, yr un nad oes neb yn sôn amdano. Yr un yn Affrica.

## Congo, wraniwm a gwrthdaro

Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo sydd â dyddodion wraniwm cyfoethocaf y byd – ffaith a alwyd i sylw Roosevelt, Arlywydd yr UD ar y pryd, ym 1939 gan Albert Einstein, wrth i bryderon gynyddu y gallai'r Almaen Natsïaidd ddatblygu'r bom.

Ers 1996, bu farw o leiaf chwe miliwn o bobl yn y gwrthdaro parhaus yn Congo, dros hawliau mwynau yn bennaf. Un o'r mwynau hynny yw wraniwm. Mae gan Israel raglen arfau niwclear o hyd o'r herwydd. Ac mae'n debyg i brif weinidog etholedig democrataidd cyntaf Congo, Patrice Lumumba, farw o'i herwydd

Ar ôl ethol Lumumba ym 1960, ymwahanodd Talaith Katanga, sy'n gartref i gloddfa fawr Shinkolobwe, o'r lle y daeth 80 y cant o'r wraniwm ar gyfer bomiau Hiroshima a Nagasaki, oddi wrth Congo. Apeliodd Lumumba at y CU am help i ostegu'r gwrthryfel. Pan nas cafodd, trodd at yr Undeb Sofietaidd – ac arwyddo'i warant marwolaeth ei hun.

Llofruddiwyd Lumumba ar ôl chwe mis mewn swydd, yn swyddogol o achos ofn y byddai'n arwain y wlad at gomiwnyddiaeth. Ond datgelodd cyn-asiant MI6 yn ddiweddarach y cafodd Prydain ac America wared ohono yn rhannol rhag ofn y byddai'n trosglwyddo cyflenwad wraniwm cyfoethog Shinkolobwe i'r Rwsiaid.

Ym 1968, a hithau bellach heb gefnogaeth Ffrainc ar gyfer ei chyflenwad o wraniwm, gweodd asiantaeth cudd-wybodaeth Israel, Mossad, gynllwyn cymhleth yn cynnwys triciau budr ar y cefnfor a arweiniodd at smyglo o leiaf 200 tunnell o deisen felen wraniwm allan o Congo, ysbail a gyrhaeddodd Dimona yn y pen draw. Goroesi a wnaeth rhaglen arfau niwclear Israel.

## Hanes dau hil-laddiad

Felly bu'r mwynau a achosodd un hil-laddiad yn cynnal gwlad ag arfau niwclear sydd wrthi'n cyflawni un arall. Mae 'Nid rhyfel yw'r ateb' yn fantra cyfarwydd. Y posibilrwydd y gallai Israel neu Rwsia neu unrhyw wlad ag arfau niwclear eu defnyddio i ddod â rhyfel i ben – neu am unrhyw reswm – yw pam mae'n rhaid inni barhau i'w ailadrodd.

**LINDA PENTZ GUNTER**

*Bu Linda Pentz Gunter o Beyond Nuclear International yn gefnogwr pybyr i fudiadau gwrth-niwclear yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf.*



*Cacen felen wranium*

# MYFYRWYR YN GALW AM DDADFUDDSODDI




Llun: Philip Steele

*Cefnogwyr yn helpu wrth i fyfyrwyr ddechrau gosod eu gwersyll ar yr 8fed o Fai*

Mae CND Cymru yn cefnogi'r gofynion i'n prifysgolion ddadfuddsoddi o gwmnïau arfau ac eraill sy'n euog o elwa ar ryfel. Rydym yn condemnio'n gryf hil-laddiad y Palesteiniaid gan Israel, ymosodiadau'r 7fed o Hydref, a charchariad y gwystlon sy'n weddill.

Dechreuodd y mudiad gwersylla/meddiannu gan fyfyrwyr yn UDA, ond ers hynny fe'i defnyddiwyd yn helaeth gan fyfyrwyr prifysgol yng Nghymru hefyd, yn Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe. Eu nod oedd gweithredu'n uniongyrchol yn ddi-drais, i ddwyn pwysau ar brifysgolion i negydu gyda phrotestwyr drwy darfu ar rythm arferol bywyd campws.

Mae'r dacteg wedi gweithio yn y gorffennol a gall weithio nawr. Mae'n hawl i brotestio yn bwysicach nawr nag erioed, gyda'r Toriaid yn gwbl elyniaethus i'r syniad o leisiau gwrthwynebus, a rhethreg ddigon annifyr gan rai ar y meinciau Llafur. Mynnwn ein hawl i brotestio, y brwydrwyd mor galed i'w hennill, ac os oes yna un pwnc a ddylai fod yn destun pryder heddiw, yr hil-laddiad sy'n mynd rhagddo, gyda chymorth tawel llawer o arweinwyr y 'Gorllewin', yw hwnnw.

- Mae gwersyll myfyrwyr **Bangor** y tu allan i Pontio, a bwriedir iddo aros yno dros y gwyliau. Picedodd protestwyr Ddiwrnod Agored y Brifysgol ar 29 Mehefin ac yn tarfu ar y cyflwyniadau. Cafwyd tri chyfarfod dadfuddsoddi gyda'r Pwyllgor Cyllid, ond daeth y trafodaethau i ben ar 3 Mehefin, pan fethodd y Brifysgol gyflawni ymrwymiadau moesegol roedd wedi'u gwneud. Canfu'r myfyrwyr fuddsoddiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol niferus y brifysgol mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â chyrch Israel.
- Yn **Aberystwyth**, meddiannodd myfyrwyr Lyfrgell Hugh Owen ar gampws Penglais ddydd a nos am wythnos, mewn protest yn erbyn cysylltiadau buddsoddi'r Brifysgol.
- Sefydlodd myfyrwyr **Caerdydd** wersyll y tu allan i brif adeilad y brifysgol ar 15 Mai, a daeth hwn yn ganolbwynt i ddigwyddiadau cymunedol, trafodaethau a darlithoedd. Mae'r myfyrwyr yn galw am ddatgeliad ariannol a dadfuddsoddi, ond yn cwyno nad yw'r brifysgol hon eto yn gwrando. Maen nhw'n bwriadu aros yno drwy'r haf. Mewn man arall, arweiniodd restio protestiwr ar orymdaith Caerdydd o blaid Palestina ar 3 Mehefin at wrthdaro â heddlu De Cymru.
- Yn **Abertawe**, gwnaeth protestwyr enillion pendant. Ar ôl 28 diwrnod o brotestio ar Lawnt Fulton, llwyddasant i ennill llawer o gonsesiynau, yn cynnwys dadfuddsoddiad llwyr o Fanc Barclays (gwerth £5 miliwn); gwarant i amddiffyn rhyddid academaidd i staff a myfyrwyr; ailbennu meini prawf er mwyn rhoi mantais i fyfyrwyr o Balesteina sy'n ffoi rhag hil-laddiad; a pholisi buddsoddi newydd, sy'n gwahardd buddsoddi mewn cwmnïau arfau, ac arfau niwclear.

**Dengys hyn y bŵer sydd gan ymgyrchwyr heddwch pan fyddwn ni'n unedig. Undod gyda'n hymgyrchwyr o fyfyrwyr a gyda phobl Palestina, na allan prin ddychmygu eu dioddefaint.**

**DYLAN LEWIS-ROWLANDS**

# UFFERN AR Y DDAEAR



*Llun: Bela Khaled/Anadolu*

**1 Gorffennaf 2024: Mae naw mis ers i lywodraeth Israel orchymyn ymosodiad ar Gaza, o'r awyr, ar dir ac ar fôr, â bomiau, tanciau, magnelau a chudd-saethwyr.**

• **Colledion** Rhwng Hydref 7ed a Mehefin 27ain cafodd o leiaf 37,765 o drigolion Gaza eu lladd, 91 y cant ohonynyt yn sifiliaid, a dros 16,000 o rheiny yn blant. Mae hefyd tua 10,000 ar goll o dan y rwbel, y tybir eu bod yn farw. Mae 86,429 wedi eu hanafu, y rhan fwyaf hefo anafiadau bywyd-newidiol. Mae dros 10,000 o blant amddifad yno. Yn ôl *Save the Children*, mae 20,000 o blant "ar goll, wedi diflannu, wedi eu cadw yn y ddalfa, wedi eu claddu o dan y rwbel, neu mewn beddau torfol".

• **Dadleoli** O ganlyniad i'r ymosodiadau parhaus, mae dros 90 y cant o drigolion yn Gaza wedi eu dadleoli. Gan fod dros 60 y cant o holl adeiladau a seilwaith Gaza wedi cael ei ddinistrio, mae'r rhan fwyaf yn byw mewn adfeilion, pebyll neu llochesi dros dro.

• **Newyn** Mae'r risg uchel o newyn yn parhau yn Gaza, gyda 95 y cant o'r boblogaeth yn wynebu ansicrwydd bwyd, 50 y cant heb fwyd a diod yn eu cartref, a 20 y cant yn mynd am dydd a nos heb fwyta o gwbl.

• **Dŵr a charthffosiaeth** Sgil-effaith i'r prinder tanwydd yn Gaza yw fod cyflenwad dŵr yn brin a bod pwmpiau dihalwyno dŵr heb fod yn gweithio. Mae'r cyflenwad dŵr sâff i yfed a choginio yn 30 y cant o'r hyn oedd cyn cychwyn yr ymosodiad. Mae pwmpio carthion a chasglu gwastraff solet hefyd yn aneffeithiol, sy'n creu problemau glanweithdra di-ri. Ar gyfartaledd, mae un toiled i bob 480 o bobl.

• **Iechyd** Oherwydd y gorboblogi, mae salwch trosglwyddiadwy yn lledaenu yn hawdd, gyda dolur rhydd a chwydu, haint y frest, hepatitis, brech yr ieir, llau pen, a clafr (*scabies*) yn achosi problemau mawr ar hyn o bryd. Tydi unigolion hefo problemau iechyd hir-dymor ddim yn cael llawer o ofal. Mae 1,200 o bobl ar dialysis yn rhannu 41 peiriant. Mae 10,000 o gleifion cancr, yn cynnwys mil o blant, yn dal i ddisgwyl am driniaeth.

• **Ysbytai a meddyginiaeth** Ond sut y gall y rhai a anafwyd, a rhai sydd yn sâl, gael eu trin pan fo 70 y cant o seilwaith iechyd Gaza wedi ei ddinistrio gan ymosodiadau Israel? Does dim un ysbyty llawn-weithredol yno bellach. Dim ond 36% y cant o'i ambiwlansys sydd bellach yn weithredol. Yn ogystal, tydi 70 y cant o'r meddyginiaethau hanfodol, yn cynnwys gwrthfiotig, poenladdwyr, anesthetig, a *gauze* a rhwymynnau di-haint ddim ar gael oherwydd y gwarchae gan Israel.

Mae'r sefyllfa'n drychinebus. Mae'n dorcalonnus ac yn anfaddeuol fod trigolion Gaza yn dioddef cyhyd. Ni all yr hil-laddiad yma o Balesteiniaid gael ei gyfiawnhau. Rhaid i ni barhau i godi ein lleisiau, boicotio, rhoddi, gorymdeithio, a mynnu fod ein llywodraeth yn cymryd y camau moesol i ddod a'r erchylltra yma i ben.

**SIÂN ARFON MINERS**

# MAPIO MILITARIAETH




*Protest yn Aberporth 2024*

Does nemor ddim sôn am y ffaith fod Cymru wedi ei militareiddio i'r carn. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen ar 23,300 hectar o'n tir, sy'n cynnwys 25 gwersyll milwrol. Mae Ardal Hyfforddi Pontsenni (Mynydd Epynt gynt) yn ychydig dros hanner hyn.

Ym MharcAberporth, mae Elbit Systems yn profi ei dronau ar draws 'Ardal Berygl' o ryw 6,500 km2 o Fae Ceredigion, yr unig awyrofod yn Ewrop lle mae dronau'n gweithredu mewn parth hedfan neilltuedig.

**Ymweliadau ysgol y fyddin**

Mae'r fyddin yn ymweld â 74 y cant o ysgolion uwchradd gwladol Cymru bedair gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd, a chaiff plant mor ifanc ag 16 eu cymell i ymuno â'r fyddin. Mae'r recriwtio'n canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd a lefelau uchel o ddiweithdra.

**Braich hir AUKUS**

Dewiswyd Cymru gan lywodraeth San Steffan fel lleoliad cyfraniad y DU i allu cynghrair AUKUS i ymladd rhyfel yn y gofod. AUKUS yw'r gynghrair filwrol newydd rhwng Awstralia, yr UD a'r DU, ac mae pob un o'r gwledydd hyn wedi ymrwymo i fod â Radar Gofod Dwfn Uwchradd (DARC) sy'n cynnwys adeiladu llu o ddysglau lloeren anferth. Sefydlwyd PARC yn erbyn DARC i wrthwynebu'r cam yma yn Sir Benfro.

**Mapio ar-lein**

Mae tynnu sylw'r cyhoedd a'n cynrychiolwyr etholedig at faint y presenoldeb milwrol hwn, yn ei holl ffurfiau, yn un o brif amcanion Heddwch ar Waith. Rydym yn bwriadu cynhyrchu map rhyngweithiol yn datgelu nid yn unig dosbarthiad daearyddol militariaeth ond hefyd ei sgil-effeithiau niweidiol: gadael cyn-filwyr i'w tynged; ei allyriadau carbon ac effeithiau ei lygredd sŵn.

Byddwn yn cynnull gwirfoddolwyr ar gyfer ymarfer mapio cymunedol ar raddfa fawr. Mae hwn yn ddull llawr-gwlad o gasglu data o'ch amgylchedd, a chyfrannu hyn at gronfa ffynhonnell-agored, sy'n eiddo i'r gymuned, o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

Byddwn yn defnyddio Open Street Map (OSM), sef prosiect rhad ac am ddim cydweithredol sy'n creu map o'r byd ar-lein y gellir ei olygu. Mae athroniaeth OSM yn cyferbynnu â mapio traddodiadol (crëwyd llawer ohono gan y fyddin), yn yr ystyr nad oes unrhyw gyfyngiad ar fynediad: mae'r map yn eiddo i bawb ac yn cael ei ddefnyddio gan gymuned fyd-eang, yn rhydd o ymyrraeth gorfforaethol.

**Mae ar eich gwlad eich angen CHI!**

Byddwn yn cysylltu delweddau, erthyglau, modelau, a sain, â lleoliadau ledled Cymru. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn rhywbeth y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain. Amod allweddol wrth defnyddio OSM yw bod gan ddefnyddwyr lefel uchel iawn o hyder yn eu gwaith plotio, gan gynnal safon o gywirdeb y gall pawb ddibynnu arno. Mae arnom angen cymorth gwirfoddolwyr sy'n gyfarwydd iawn â'u gwersylloedd a'u sefydliadau milwrol lleol.

>>> **Ymunwch â'r ymdrech lawr-gwlad hon, cysylltwch â Heddwch ar Waith. heddwcharwaith@gmail.com. Neu gyfryngau cymdeithasol.**

**SAM BANNON**

# YMGYRCH YN ERBYN RADAR Y GOFOD YN CYCHWYN AR GARLAM




*Cofio 1990? Wel, rŷn ni nôl! Neuadd Goffa Solfach dan ei sang, 27 Mehefin 2024. Llun: DARC*

Cychwynnodd ymgyrch **PARC yn erbyn DARC** ar garlam gyda lansiad digidol ar 29 Mai o'i wefan www.parcagainstdarc.com o ansawdd uchel, sy'n llawn dop o alwadau i weithredu, tudalennau cyfryngau cymdeithasol, deiseb, a chronfa i godi arian. Mae'r wefan yn amlinellu sawl dadl allweddol yn erbyn DARC. Lansiwyd yr ymgyrch gyda lefel anhygoel o gefnogaeth gan CND Cymru, Clymblaid Atal y Rhyfel a phrosiect Heddwch a Chyfiawnder Jeremy Corbyn, y Glymblaid Hinsawdd leol, Plaid Werdd Cymru ac Chymuned Unite De Orllewin Cymru. Buan yr ymunodd sefydliadau eraill, yn cynnwys Extinction Rebellion y DU a Chynulliad y Bobl Cymru â ni hefyd.

Mynychodd cannoedd gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Goffa Solfach ar 27 Mehefin. Dechreuodd y cyfarfod gyda fideo pwerus - https://www.youtube.com/watch?v=HsNsAIKAITU a amlygodd y cysylltiad rhwng ymgyrch wreiddiol PARC ym 1990 a'i holynydd yn 2024, gyda galwad ysbrydoledig am undod. Ymhlith y siaradwyr roedd Roy Jones a Jim Scott o PARC, Emma Bowen yn cynrychioli'r sector gwestai, Michael Davies ar yr effeithiau ar fywyd gwyllt, a Dylan Lewis-Rowlands o CND Cymru. Cafwyd trafodaeth fywiog i ddilyn gyda phobl leol i gyd yn ymrwymo i 'wneud DARC yn hen hanes'.

**ROY JONES**

# CYNGHRAIR LAKENHEATH: SAFWN DROS HEDDWCH

Mae CND Cymru yn bartner allweddol yng **Nghynghrair Heddwch Lakenheath**. 43 mlynedd yn ôl, cerddodd pobl o Gaerdydd i Gomin Greenham i atal arfau niwclear yr UD rhag cael eu lleoli yno. O'r 13 i'r 15 Gorffennaf 2024 bydd ugeiniau o bobl yn cerdded o Norwich i brif glwyd 'RAF' (USAF, i bob diben) gan fynnu na chaiff arfau niwclear yr UD ddychwelyd i'r DU.

Sefydlir gwersyll o'r 15-25 Gorffennaf (ac efallai'n hwy) â phresenoldeb 24 awr 7 diwrnod yr wythnos ger y brif glwyd. Mae dau ddiwrnod mawr wedi'u cynllunio, ar 16 a 20 Gorffennaf pan fyddwn yn annog cymaint o bobl â phosib i ymuno â ni i wneud ein neges yn glir iawn: 'DIM ARFAU NIWCLEAR yn RAF LAKENHEATH NAC YN UNMAN ARALL'.

On'd oes 'na ddigon o arfau niwclear yn y DU eisoes, pan nad yw'r rhan fwyaf o bobl eu heisiau? Ni fu dim trafodaeth seneddol ar leoli arfau niwclear yr UD yn Lakenheath. Pan ddaw Cytundeb Amddiffyn Cydfuddiannol yr UD/DU i'w adnewyddu yn San Steffan rhaid i ni i gyd wneud safiad i'w atal rhag mynd drwodd heb ei archwilio. Rhaid pwyso ar y senedd i ufuddhau i'r Cytundeb Atal Ymlediad



Niwclear (CAYN). Mae Llafur a'r Ceidwadwyr ill dau am gynyddu'r stoc arfau niwclear, nid ei leihau fel sy'n ofynnol o dan y cytundeb rhyngwladol a lofnododd y DU.

**Safwn ynghyd yn USAF/RAF Lakenheath a gyda'n gilydd gallwn atal y gwario gorffwyll a dibwrpas ar arfau dinistriol a chynyddu tensiynau byd-eang. Cofrestrwch i ddysgu mwy yn** www.lakenheathallianceforpeace.org.

**ALI LOCHHEAD**

# O FÔN I FYNWY
## MONA TO MONMOUTH



### Achos Tri Solvay

Wrth i'r rhifyn diwethaf o Heddwch fynd i'r wasg fis Ebrill, roedd achos Tri Solvay (Owain Parry, Thomas Bell a Mark Redfern) yn mynd rhagddo yn Llys y Goron **Caernarfon**. Roedd hyn wedi iddynt feddiannu ffatri Solvay yn **Wrecsam** yn 2021, er mwyn amharu ar gynhyrchu offer milwrol (cydrannau o'r jet F-35) ar gyfer Israel, i'w defnyddio i ymosod ar Balesteiniaid. Hawliai Solvay golledion o £60,000. Plediodd Owain Parry yn euog a chael dirwy o £534. Plediodd y ddau arall yn ddieuog. Gwnaeth Thomas Bell araith angerddol am Gymru fel cenedl heddwch, gan ddyfynnu Deiseb Heddwch Merched Cymru 1923 fel enghraifft. Fe'u cafwyd yn euog gan y rheithgor, ond rhoddodd y barnwr y dirwyon lleiaf posib i bob un ohonynt.

### Tonnau ysgytwol o Gaza

Mae ymateb Cymru i hil-laddiad Israel yn Gaza ac i'r digwyddiadau erchyll yn Rafah a hefyd ar y Lan Orllewinol, yn parhau'n gyson a dwys. Mae gan **Gaernarfon** wylnosau ar y Maes bob dydd Sul ers dechrau'r rhyfel. Ar 27 Ebrill gosododd gwrthdystwyr Heddwch ar Waith yn **Aberystwyth** 15,780 o gerrig mân gwyn o'r traeth ar hyd y promenâd, un am bob plentyn a laddwyd yn Gaza ac Israel ers 7 Hydref. Ym **Mangor** ar 1 Mehefin cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod y rhagolygon ar gyfer heddwch yn Gaza. Roedd gorymdaith yn **Wrecsam** ar 15 Mehefin, gyda Chadeirydd CND Cymru, Mabon ap Gwynfor, yn annerch. Cafwyd gorymdeithiau pellach yn **Abertawe** a **Chaerdydd**. Mae myfyrwyr **Caerdydd**, **Abertawe** a **Bangor** wedi sefydlu gwersylloedd (gwel. t.6) a meddiannwyd adeilad gan fyfyrwyr yn **Aberystwyth**.

### Cymru yn Glastonbury

Bu gan CND yn ei holl amlygiadau â chysylltiadau agos â'r ŵyl byth er ei sefydlu, ac mae Brian a Jan Jones o CND Cymru ers blynyddoedd lawer wedi codi arian ymgyrchu drwy drefnu'r cypyrddau clo yno. Eleni cafwyd mewnbwn seren (ychwanegol!) pan ddaeth Charlotte Church â 'llawer o gariad o Gymru' i'r sesiwn Radical Roundup ar lwyfan y Cae Chwith, a chanu dros Balesteina Rydd, gan gyflwyno'r gân 'i'r holl bobl a'r holl famau a plant'.

### Cefnogaeth i geiswyr lloches

Ar 1 Mai, gyda chefnogwyr cynllun alltudio Rwanda Sunak yn groch o'i blaid, roedd ceiswyr lloches yn cael eu hel i'r ddalfa. Pan ofynnwyd i geisiwr lloches lleol fynd i swyddfa'r heddlu ym Mangor, ymddangosodd grŵp o gefnogwyr y tu allan i'r orsaf ar fyr rybudd. Yn ffodus, ni chafodd ei gadw yn y ddalfa. Mae rhaglen gyfeillgarwch gan grŵp gweithredu Dyma Ni wedi bod yn gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf.



*Cefnogi ceiswyr lloches ym Mangor, Calan Mai 2024.* *Llun: Philip Steele*




*Defnyddir yr ehediadau C-17 i gludo offer a ddefnyddir i gynnal arfau niwclear Prydain*

## Pryderon am ehediadau niwclear

Mae'r cynghorydd Sue Lent o Gaerdydd, cadeirydd Fforwm Cymru o'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear (NFLA), wedi ychwanegu ei phryderon at rai CND Prydeinig a Nukewatch, am y perygl posibl i Gymru o awyrennau trafnidiaeth yr Awyrlu sy'n cludo deunydd niwclear rhwng Lloegr ac UDA. Mae'r awyren C-17 Globemaster 4-injan yn gwneud y daith gron tua 10 gwaith y flwyddyn, gan hedfan dros ogledd **Caerdydd** neu'r **Cymoedd**. Gofynnodd Sue Lent i'r Prif Weinidog Vaughan Gething wneud cais am ddargyfeirio'r ehediadau ac am adolygiad o weithdrefnau cynllunio argyfwng.

## Rhithluniau Wylfa

Ar ôl i lywodraeth San Steffan brynu safle **Wylfa** ar **Ynys Môn** gan Hitachi am £160 miliwn, cyhoeddwyd ar 22 Mai ei bod yn ei enwi fel ei thrydydd safle dewisol ar gyfer gorsaf bŵr niwclear fawr. Roedd eisoes mewn trafodaethau gyda Kepco, datblygwr o Dde Corea. Gwnaeth PAWB (Pobl Atal Wylfa B) ddatganiad ar frys a galwyd ar eu llefarwyr yn y man i recordio cyfweliadau gyda **Radio Wales, Radio Cymru** a chyfryngau eraill.

Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth fanwl y gallai'r lobi niwclear, yn cynnwys y cyn-AS Llafur a Phrif Weithredydd NIA (Cymdeithas y Diwydiannau Niwclear) Tom Greatrex, ac Ysgrifennydd Gwladol Toriaidd Cymru ar y pryd David TC Davies, ei chynnig i'r cyflwynwyr am amseriad na chostau.

Yn hwyrach yn y dydd, daeth popeth yn glir. Roedd etholiad cyffredinol ar y gweill! Stynt wleidyddol? Digon posib. Adroddodd *Nation Cymru* ar 2 Gorffennaf i Dr Jonathan Dean, un o ymddiriedolwyr YDCW, gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth am adroddiad gwerthuso Wylfa. Gwrthodwyd hyn ar sail fasnachol, ond cyfaddefodd y llywodraeth 'na phenderfynwyd yn derfynol ar safleoedd a thechnolegau.'

Ymddengys fod honiad Virginia Crosbie AS yn ei llenyddiaeth ymgyrch ei bod wrthi'n 'delifro Wylfa' ychydig dros ben llestri. Collodd ei sedd ar 4 Gorffennaf, ond mae PAWB yn parhau i fod yn wyliadwrus (fel y mae wedi bod dros y 38 mlynedd diwethaf o gastiau budr y llywodraeth!).

## Chwarae teg?

Mae penderfyniad **BBC Cymru** i wrthod gadael i Blaid Werdd Cymru gyfranogi yn y ddadl etholiad a deledwyd ar 21 Mehefin, ond i gynnig llwyfan i blaid asgell-dde eithafol, Reform UK dan arweiniad Nigel Farage yn lle hynny, yn codi cwestiynau lu am gydbwysedd y cyfryngau i ddemocratiaid o pob plaid. Methodd Farage gael ei ethol yn AS 7 gwaith tra'r oedd y Gwyrddion yn bedwerydd yn yr etholiad diwethaf (Senedd). Ar 4 Gorffennaf enillodd y Gwyrddion 4 sedd, a Reform 5.

# GEIRIAU A DELWEDDAU ERGYDIOL

**Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r delweddau a'r sloganau pwerus, ffraeth yn fynych, a welwyd ar gymaint o ymgyrchoedd a phrotestiadau CND Cymru dros y blynyddoedd, a'r placardiau hynny sy'n dal i'n sbarduno i weithredu. Cawsom air gyda Jon Plumpton a Jill Gough ynglŷn â gweithdy posteri gorllewin Cymru, Mwnci Coch.**



*Mwncïod Cochion wrth eu gwaith*
*Llun: Mwnci Coch*

### Pwy, beth a ble? Dywedwch wrthym am Mwnci Coch

Meidrolion radical, ymgyrchwyr a sgrin-brintwyr sy'n gweithio dros heddwch a chyfiawnder gwleidyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol! Dau unigolyn sy'n gweithio'n effeithlon i gael posteri, placardiau, taflenni, bathodynnau a sticeri i'r lle iawn pan fo'u hangen. Esblygodd Mwnci Coch o RedKite Print – gan gynhyrchu posteri ac deunyddiau radical eraill drwy dechnegau effaith-isel yn bennaf, er mwyn i bobl Cymru gael deunydd Cymreig a argraffwyd yng Nghymru.

### Beth ydych chi'n ei gynhyrchu?

Posteri mawr o waith llaw yn bennaf – hyd at rhyw 50 ar y tro.

### Sut mae sgrin-brintio yn gweithio?

Caiff stensil o'r geiriau a/neu'r ddelwedd ei dorri a'i osod ar sgrin 'rwyd' (wedi'i ddal yn dynn ar ffrâm) a chaiff y paent ei wthio drwyddo ar ddalen o bapur. Os defnyddir mwy nag un lliw, caiff pob stensil lliw ei dorri a'i argraffu ar wahân. Rydym yn defnyddio stensiliau papur, fframiau a sgriniau o waith llaw, a gwahanol baent ac inc fel y bo'r angen.

### Ydy sgrin-brintio yn fwy effeithiol nag argraffu digidol?

Mae'r technegau'n wahanol ond gallant fod yn gyflenwol. Er enghraifft, mae argraffu digidol yn wych ar gyfer rhediadau hirach o hyd at 1000 x 32tt o lyfrynnau, a thaflenni, sticeri a gwneud bathodynnau. Rydym newydd argraffu blodeugerdd 32-tudalen *Red Poets For Gaza* gan Mike Jenkins yn ddigidol.

Gall sgrin-brintio ddarparu delwedd fwy, ysgytwol – poster, placard neu ddelwedd ar gyfer wal neu ddigwyddiad cyhoeddus Defnyddir posteri





Mwnci Coch yn aml ar gyfer rafflau neu arwerthiannau i godi arian ar gyfer ymgyrchoedd. Gall gwead paent a phapur ac ansawdd printiau sgrin eu gwneud yn fwy trawiadol.

Mae sgrin-brintio llaw Mwnci Coch yn cyflenwi a chyd-fynd yn berffaith ag argraffu digidol RedKite Print, ein chwaer sefydliad argraffu-cyflym.







### Beth sy'n gwneud poster da?

Mae hynny'n swnio fel pwnc Doethuriaeth!

Dewiswch y delweddau rydych chi'n eu hoffi ac a allai ddenu gwyliwr. Mae Mwnci Coch yn ceisio defnyddio geiriau a delweddau a all anfon neges glir mewn un sylw cryno. Gall placardiau y tynnir llun ohonynt mewn gwrthdystiad greu pennawd papur-newydd na châi sylw fel arall.








### Pa mor bwysig yw'r poster mewn gweithredu gwleidyddol?


Mae gan bosteri orffennol o lynu anghyfreithlon – mae Mwnci Coch yn tueddu i greu placardiau nawr. Mae'n bwysig i ni gynhyrchu'n gwaith yn y ddwy iaith. Gall placardiau tebyg gyda'u neges glir eu hunain mewn digwyddiad uno cyfranogwyr na fyddai fel arall efallai wedi ymgysylltu. Gall gweithdai placardiau eu hunain fod yn ddigwyddiadau uno/bondio yn arwain i fyny at wylnosau, protestiadau a gwrthdystiadau diweddarach.

### A yw hynny'n dal yn wir yn oes y rhyngrwyd?

Yn bendant, os nad yn fwy felly! Er i'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol fod yn rhyfeddol am hysbysu a chysylltu ymgyrchwyr, gall creu placardiau a'u defnyddio chwalu'r atomeiddio a achosir weithiau gan y rhyngrwyd. Fel baneri (dim ond ychydig sy'n eu cario fel arfer), gall placardiau wedi eu cario gan lawer o unigolion feithrin undod.

### Fyddwch chi'n cynnal gweithdai i weithredwyr?

Rydyn ni yn cynnig gweithdai i weithredwyr, undebwyr llafur ac ymgyrchwyr sy'n cwmpasu pob agwedd ar sgrin-brintio, yn cynnwys adeiladu offer a'i ddefnyddio – a thechnegau argraffu. Mae gan Mwnci Coch un gweithdy sy'n defnyddio eitemau cyffredin sydd ar gael yn y cartref.




# *NUCLEAR WAR A Scenario*

Annie Jacobsen

Torva 2024
£15.89
400tt. Clawr caled
978-1911709596
*Saesneg*

Ai dyma'r gwaith ffuglen mwyaf erch a sgrifennwyd erioed? Yn eitha posib, ond gallai ddod yn wir yn hawdd iawn – ac yn y ddwy awr nesaf! Disgrifia Annie Jacobsen yn frawychus o fanwl yr amgylchiadau realistig lle mae cyrch niwclear gan Ogledd Corea ar UDA ag ICBM (Taflegryn Balistig Rhyng-gyfandirol) a SLBM (Taflegryn Balistig a Lansir o'r Môr) yn arwain yn fuan at ryfel thermoniwclear byd-eang.

Gan ddefnyddio'r hyn sy'n hysbys i'r cyhoedd am athrawiaeth cyffyrddiad-lleiaf yr UD ar saethu arfau niwclear, mae'r senario hwn, ar sail ymchwil drylwyr, yn disgrifio'r ddawns real a brawychus iawn gydag Armageddon yr ymuna'r ddynoliaeth ynddi bob dydd. Mae naratif argyhoeddiadol Jacobsen yn dangos yn eglur a byw y gellir troi miloedd o flynyddoedd o gynnydd dynol i ludw, mewn cyfnewid niwclear nad yw'n para mwy na 90 munud. Pan groesir y trothwy niwclear, mae ataliaeth wedi methu, gan chwalu tabŵ ar ddefnyddio arfau niwclear. Yn y sefyllfa hon, mae rhesymeg macâbr yr uwchbŵer yn anochel yn arwain at ddial ar raddfa enfawr, cyn y 'digwyddiad torri-pen' sy'n dileu gallu prif gadfridogion y ddwy ochr i ddefnyddio'u harfogaeth thermoniwclear erchyll. Mae hyn yn gwneud cyd-ddinistr yn anochel ac yn chwalu unrhyw syniad y gellid ymladd ac ennill gwrthdaro niwclear 'cyfyngedig'.

Mae Jacobsen yn mynd ati i ddadansoddi, fesul munud, y protocolau gorchymyn-a-rheoli a ysgogir pa ganfyddir taflegryn ar ei ffordd gan Norad (system rhybudd cynnar yr UD), fel y byddai Arlywydd yr UD yn eu profi. Yn yr amser a gymer i wneud paned o goffi, rhaid iddo/iddi ddewis o ddogfen o'r enw y Llyfr Du: dewislen o opsiynau dial, wedi eu cyfrif mewn mewn 'megafarwolaethau', y metrig anrheithiol sy'n cynrychioli miliwn o golledion. Er mor afiach hynny, mae talgrynnu i'r miliwn agosaf yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun rhyfel niwclear. Senario cwbl anobeithiol, lle byddai cyfradd y colledion ond yn bosib ei chymharu â'r pum digwyddiad difodiant torfol yn hanes 3.7 biliwn o flynyddoedd o hyd bywyd ar y Ddaear.

Mae *Nuclear War A Scenario* yn disgrifio yn y modd mwyaf gofidus o fanwl ganlyniadau dynol rhyfel thermoniwclear: y miliynau a fyddai'n marw'n araf o losgiadau trydedd-gradd dirdynnol (heb obaith am gymorth); y gwaedu gastroberfeddol a achosir gan ymbelydredd acíwt; methiant hirdymor cnydau oherwydd gaeaf niwclear; anallu'r ddynoliaeth i genhedlu oherwydd anffrwythlondeb mewn dynion a menywod (hynny hefyd oherwydd salwch ymbelydredd); a dirywiad cyflym unrhyw beth tebyg i gymdeithas drefnus. Yng ngeiriau Albert Einstein, "Ni wn â pha arfau yr ymleddir y Trydydd Rhyfel Byd, ond ymleddir y Pedwerydd Rhyfel Byd â ffyn a cherrig."

Mae *Nuclear War a Scenario* gan Annie Jacobsen yn atgof pwysig o ba mor hawdd y gallai golau cannwyll egwan y ddynoliaeth gael ei diffodd, naill ai gan elitau sosiopathig, neu'n waeth byth, trwy gamgymeriad. Mae'n rhybudd ein bod bob dydd, yn rholio'r dis gydag ebargofiant, ac yn arwydd o'n tynged bosib iawn, oni wnawn ni weithredu yn awr, i waredu'r byd o'r 12,512 o arfau dydd y farn sydd yn nwylo lleiafrif bychan iawn o wledydd.

**SAM BANNON**

# Olwen Leavold 1952-2024

Yn dawel ar y 4 Ebrill 2024 a'i theulu cariadus o'i chwmpas, bu farw Olwen Leavold yn 72 oed. Yn wreiddiol o Ddolgellau, Olwen annwyl oedd y drydedd o saith o ferched a anwyd i Dafydd Meirion Humphreys a'i wraig Mair, ac roedd yn wraig serchus i'r diweddar Peter. Yn sosialydd a gwladgarwraig, roedd Olwen yn fenyw gref, annibynnol ac egwyddorol ei natur. Roedd hi'n aelod ffyddlon o Gôr Cochion Caerdydd ac wedi brwydro'n ddiflino dros hawliau dynol drwy gydol ei hoes. Mawr yw'r golled ar ei hôl.

**DIANA BIANCHI**



*Olwen (chwith) yn canu gyda Chôr Cochion Caerdydd*

## HYSBYSFWRDD

Da chi, fe hoffem glywed gennych! Anfonwch ebost, barn, adroddiad, awgrym, manylion am ddigwyddiadau at phil_steele@btinternet.com gyda 'H88 ed' yn y llinell destun. Cadwch o'n fyr a rhowch eich cyfeiriad post hefyd!

**13-15 Gorffennaf Cynghrair Heddwch Lakenheath**
Cerdded o Norwich i Lakenheath

**15-25 Gorffennaf Cynghrair Heddwch Lakenheath** Gwersyll tu allan i'r glwyd.
Dyddiau ymwelwyr arbennig 16 a'r 20 Gorffennaf.

**3-10 Awst Eisteddfod Genedlaethol Cymru Rhondda Cynon Taf**
Parc Ynysangharad, PONTYPRIDD. Ymwelwch ag CND Cymru yn y Babell Heddwch.
Partneriaid yn cynnwys: CND Cymru, Cymdeithas y Cymod, yr Academi Heddwch, Ymgyrch Cefnogi Palesteina Cymru, CADNO-PAWB' Heddwch ar Waith, Atal y Rhyfel Cymru, Cymru-Cuba

**6 Awst Diwrnod Hiroshima**
Y Babell Heddwch, Eisteddfod Genedlaethol (gweler uchod)
Digwyddiad Coffa Hiroshima, Amgueddfa'r Glannau, ABERTAWE 14.00

**21-28 28 Medi Wythnos Fyd-eang o Weithredu dros Heddwch a Chyfiawnder Hinsawdd**
Menter newydd ar-lein yn *https://climatemilitarism.org/weekofaction/*

# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

| | |
|---|---|
| **gwefan** | *www.cndcymru.org* |
| **e-bost** | *heddwch@cndcymru.org* |
| **X (trydar)** | *@cndcymru* |
| **instagram** | *@cndcymru* |
| **gweplyfr** | *www.facebook.com/cndcymru/* |

## YMUNWCH Â NI NAWR!

*https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/*
O dan 25? Syml! Gallwch ymuno â ni am ddim ar-lein a lawrlwytho Heddwch o'r wefan

## CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd**
Mabon ap Gwynfor *mabonapgwynfor@gmail.com*

**Is-gadeiryddion**
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*

**Trysorydd/Aelodaeth**
Michael Freeman *aelodaeth@cndcymru.org*
9 Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE

**Ysgrifennydd Cenelaethol Y Wasg/Cyfathrebu**
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor Gwaith**

| | |
|---|---|
| Peter Adamson | Sam Bannon |
| Jill Gough | Robat Idris |
| Awel Irene | Alison Lochhead |
| Dylan Morgan | Jon Plumpton |
| Linda Rogers | Bethan Siân |
| Philip Steele | |

## HEDDWCH

**yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn www.cndcymru.org**

**Golygydd:** Philip Steele
*phil_steele@btinternet.com*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunydd:** Tom Pollock
*tom@excellent-design.co.uk*
Argraffwyd gan **Serol Print,** Castell-nedd 2024
*Gwaith celf*
*t2 Dai Owen, t10 Ruth Jên Evans, t16 Osian Grifford*

Nid yw cynnwys Heddwch o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad, llythyr neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf *HEDDWCH* yn ymddangos ym mis Rhagfyr 2024.




*Ymgyrch Heddwch Menywod Cymru 1923*